



GROWING THE FUTURE  
TYFUR DYFODOL

# CREU Tŷ DRAENOG



## GWNEUD Tŷ DRAENOG O DDEFNYDD WEDI'I AILGYLCHU


### Bydd arnoch angen:

- Blwch ffrwythau o bren. (Mae'r rhain i'w cael fel rheol mewn siopau ffrwythau a llysiau i ddal orennau. Gofynnwch i berchennog y siop a dweud pam mae angen un arnoch.)
- Darn gwastad o bren tua 0.5cm o drwch, yn ddigon mawr i orchuddio'r blwch pren
- Pren mesur
- Pencil
- Llif bren fechan
- Maneg
- Morthwyl bach
- 6-12 o hoelion x 1cm o hyd

### Dull (Angen cymorth oedolyn):

#### Gwneud y Fynedfa

1. Trowch y blwch ffrwythau ben i waered a'i roi ar y llawr. 2/3 ar hyd ymyl y blwch pren, gwnewch dwll mynediad i'r draenog 12cm sgwâr.
2. Gan ddefnyddio'r pren mesur a'r bencil, mesurwch sgwâr a'i farcio.  
12cm i fyny o'r llawr  
12cm ar draws y top  
12cm i lawr at y llawr
3. Rhowch faneg am y llaw sy'n dal y pren.
4. **(Angen cymorth)** Torrwch y twll allan yn ofalus â llif bren gan ddilyn llinellau'r bencil.





## Gorchuddio'r To

1. Gadewch y blwch ffrwythau ben i waered, a chan ddefnyddio'r darn pren tenau mesurwch y pren i ffitio dros y blwch, fel na fydd bylchau i ddŵr fynd i mewn.
2. Marciwch y pren â phensel.
3. Rhowch faneg am y llaw a fydd yn dal y pren (i'ch arbed rhag torri'ch llaw os digwydd i'r llif lithro, aw!).
4. **(Angen cymorth)** Daliwch y pren yn ddiogel a defnyddio'r llif bren i dorri ar hyd llinell y bensel.
5. Cadwch y faneg ar yr un llaw i ddal yr hoelen (i arbed taro'ch bys bawd, aw!).
6. **(Angen cymorth)** Curwch yr hoelen yn ofalus i mewn i do'r blwch drwy'r manau mwyaf trwchus.
7. Nawr mae gennych dŷ draenog i'w orchuddio â dail a choed a'i osod yn yr ardd.

## Lleoli Tŷ'r Draenog

1. Gosodwch dŷ'r draenog dan lwyn cysgodol neu wal, gan wynebu i ffwrdd o gyfeiriad y gwynt arferol ac o'r gogledd ddwyrain. Bydd hyn yn gwneud yn siŵr na fydd glaw nac eira'n dod i mewn i'r tŷ.
2. Rhowch ychydig wellt neu ddail sych yn nhŷ'r draenog
3. Gorchuddiwch y to a'r ymylon â dail sych i'w inswleiddio a'i gadw'n sych
4. Gosodwch ddarnau o bren, brigau a changhennau dros y dail a'r tŷ (gan adael yr agoriad yn agored). Mae hyn yn diogelu'r tŷ a'r draenog sy'n cysgu ynddo ac yn eu cuddio.
5. Gadewch dŷ'r draenog heb darfu arno tan y gwanwyn, pan allwch ei lanhau a'i adnewyddu.



Os byddwch wedi mwynhau gwneud eich tŷ draenog, beth am wneud rhai i ffrindiau a theulu i ddenu mwy o ddraenogod i ddod i gysgu dros y gaeaf yn yr ardal.

Byddem yn hoffi gweld y tai draenogod fyddwch chi'n eu gwneud, dangoswch nhw i ni gan ddefnyddio **@GTFCymru** a **#TyfurDyfodol**. **Dewch inni gael hwyl gyda'n gilydd gyda natur!**

# TYFU'R DYFODOL

Mae prosiect Tyfu'r Dyfodol yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn brosiect pum mlynedd o hyd i ddathlu garddwriaeth Cymru, planhigion ar gyfer pryfed peillio, i amddiffyn bywyd gwylt, ac i bwysleisio holl fanteision tyfu planhigion - i'w bwyta, i roi hwyl inni ac i gyfrannu at ein lles a'n hiechyd.

P'un a ydych yn arddiwr profiadol, yn dyfwr dibrofiad neu'n ddarpar wenywyr – rydym am helpu i roi hyfforddiant, gwybodaeth a chymorth i chi. Am fwy o wybodaeth ar ddigwyddiadau a chyrsiau'r prosiect, ffoniwch **01558 667150**, e-bostiwch [gtf@gardenofwales.org.uk](mailto:gtf@gardenofwales.org.uk) neu ewch i [garddfotaneg.cymru/gwyddoniaeth/tyfu-dyfodol](http://garddfotaneg.cymru/gwyddoniaeth/tyfu-dyfodol) os gwelwch yn dda.

Mae'r prosiect hwn wedi derbyn cyllid trwy Raglen Datblygu Wledig 2014-2020 – Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Ardaloedd Gwledig, a Llywodraeth Cymru.

